Yn enwog, ond gwrthododd bob ceiniog

(caredigrwydd / gweledigaeth / gosod esiampl)

Mab i gaethwas oedd George. Un noson daeth herwgipwyr heibio ar gefn ceffylau a mynd â'i fam, ei chwaer ac yntau gyda nhw. Welwyd mo'i fam a'i chwaer byth wedyn ac ni chafodd wybod beth oedd wedi digwydd iddyn nhw. Chafodd o erioed wybod pwy oedd ei dad.

Prynodd "perchnogion" rhieni George ef yn ôl gan yr herwgipwyr. Bachgen gwantan, yn dioddef o bob math o afiechyd oedd George. Roedd ganddo hefyd nam ar ei leferydd a byddai atal dweud mawr arno yn enwedig pan fyddai'n cael ei ddychryn neu pan fyddai dan straen. Doedd o ddim yn ddigon cryf i weithio yn y caeau fel y bechgyn eraill felly dyma ei fam faeth, Susan Carver, yn cynnig swydd iddo i'w helpu yn y gegin.

Dangosodd yn fuan iawn y medrai goginio a gwnïo, a hynny â chryn gamp. Ond roedd ei ddiddordeb pennaf yn y blodau oedd yn tyfu yn y caeau. Byddai'n casglu'r blodau ac yna, yn y gegin, byddai'n eu torri'n ddarnau bychain er mwyn gweld sut roedden nhw'n tyfu. Byddai, o dro i dro, yn cerdded milltiroedd i chwilio am wahanol flodau ac yna'n mynd ati i weld sut fath o bridd roedden nhw ei angen.

Daeth yr awydd arno i ddysgu mwy. Golygai hyn y byddai'n rhaid iddo fynd i ysgol. Aeth i ysgol ar gyfer plant tywyll eu croen yn Neosho, Kansas, gan fod ysgol y pentref ar gyfer plant gwynion yn unig. Pan oedd yn ei ugeiniau cynnar gadawodd yr ysgol ac aeth i Goleg Simpson yn Iowa ac ef oedd y myfyriwr tywyll ei groen cyntaf i raddio o Brifysgol Talaith Iowa. Erbyn hyn roedd y sôn am George wedi mynd ar hyd y taleithiau. Roedd yn enwog am ei astudiaethau ar blanhigion, a ffwng. Aeth i ddysgu i ysgol ar gyfer myfyrwyr Negroaidd oedd yn cael ei rhedeg gan Booker T. Washington a oedd, fel Carver, yn fab i gaethwas. Ac yno y bu am weddill ei oes.

Nid yn unig yr oedd yn dysgu'r myfyrwyr yn yr ysgol ond roedd hefyd yn fwy na pharod i ddysgu'r amaethwyr sut i wella eu tiroedd.

Cyn i Carver ddechrau arbrofi roedd tyfu cnau mwnci yn

beth dieithr iawn yn y taleithiau. Erbyn 1940 roedd tyfu cnau mwnci wedi dod yn un o'r chwe chnwd pwysicaf. Gwnaeth Carver ddefnydd helaeth o'r gneuen hon. Cynhyrchodd dros 300 o wahanol bethau o'r gneuen mwnci, yn eu plith siampŵ, inc, finag, sebon, coffi, menyn, llefrith a chaws. Llwyddodd i gynhyrchu dros 118 o wahanol bethau o datws melys yn ei plith, rwber. Byddai wrth ei fodd hefyd yn gwneud gwahanol liwiau trwy ddefnyddio gwahanol rannau o blanhigion, sef y dail, y rhisgl a'r gwreiddiau. Ymhlith ei arbrofion roedd dros 500 o liwiau wedi'u gwneud o blanhigion oedd yn tyfu yn yr ardal.

Daeth yn enwog drwy America i gyd. Cynigiai pobl fusnes gyfoethog arian mawr iddo i ddod i weithio iddyn nhw. Ond gwrthod y cyfan a wnaeth George. Cynigiodd Thomas Edison iddo ddod i weithio iddo fo ond gwrthod wnaeth y tro hwnnw hefyd.

Ei unig nod oedd helpu ei bobl. Doedd ganddo fawr o ddiddordeb mewn arian. Cafodd gynnig codiad cyflog ond gwrthod wnaeth. Mae sôn amdano'n anghofio mynd â'r sieciau i'r banc a byddai'n eu darganfod ynghanol ei lyfrau flynyddoedd yn ddiweddarach. "Dydw i ddim eisiau arian. Dydw i ddim yn gwario llawer. Yn wir, mae'r got fawr yma wedi bod gen i am ddeugain mlynedd," meddai wrth ffrind un diwrnod. Roedd gan ei ffrindiau feddwl y byd ohono. Doedd o byth yn flin ac yn gas. Er ei fod wedi gweithio'n galed gydol ei oes roedd ganddo amser i wrando ar bawb. Er fod tri o arlywyddion America yn ffrindiau agos iddo, dyn y bobl gyffredin oedd Carver hyd y diwedd.

Adnod: "Ni all neb wasanaethu dau feistr; oherwydd bydd un ai'n casáu'r naill ac yn caru'r llall, neu'n deyrngar i'r naill ac yn dirmygu'r llall. Ni allwch wasanaethu Duw ac Arian. Mathew 6:24

Gweddi: Diolch i Ti, O Dduw, am bobl sy'n medru bod yn ffrind i bawb. Amen.

Trafod:

- Pa mor bwysig ydi magwraeth yn hanes pobl?
- Beth yn union oedd yn gwneud Carver yn ddyn enwog?